Trawsnewid
Trafnidiaeth
Caerdydd

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Canlyniad yr Ymgynghoriad a Diweddariad

CARDIFF
CAERDYDD



# Llwybr Beicio Parc y Rhath – diweddariad prosiect

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Diweddariad ar yr ymgynghoriad

Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar welliannau ar **Gae Rec y Rhath** ac ar **Heol Ninian** i wella **hygyrchedd i feiciau a cherddwyr** yn yr ardal.

Rhoddir canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad diweddar yn y ddogfen hon ynghyd â chynlluniau cysyniad a chynigion wedi'u diweddaru.

Mae mesurau ychwanegol yn cael eu cynnig ar Heol Tŷ Draw a Pen-Y-Wain Place. Ceir mwy o wybodaeth yn y ddogfen hon.

Ceir dolen i adroddiad yr ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a hoffem glywed eich barn ar y cynigion sydd wedi'u diweddaru.

Byddwn yn defnyddio unrhyw adborth a geir i lywio'r dyluniadau sy'n cael eu datblygu a cheir gwybodaeth ar **Sut i ymateb** ar ddiwedd y ddogfen hon, ynghyd ag adran **Cwestiynau Cyffredin**.





CARDIFF
CAERDYDD

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Canfyddiadau Allweddol yr Ymgynghoriad Cychwynnol

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus fis Mawrth 2022 i gael adborth ar y gwelliannau arfaethedig ar Gae Rec y Rhath a Heol Ninian. Cafodd tua 900 o lythyrau eu hanfon at drigolion a busnesau'r ardal ger y cynnig hwn. Derbyniwyd cyfanswm o 257 o ymatebion drwy'r ddolen arolwg i'r ymgynghoriad, yn ogystal â nifer fechan o e-byst a deiseb yn cyfeirio at y rhwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw.

Mae'r prif bwyntiau a godwyd o'r ymgynghoriad fel a ganlyn.

Mae'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn cefnogi'r mesurau arfaethedig a dros hanner yr ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio drwy'r parc gyda thraean o'r ymatebwyr yn cefnogi'r llwybr beicio ond yn meddwl y dylai fod ar y ffordd fawr.

Roedd llawer yn credu y byddai'r mesurau arfaethedig yn fuddiol ac yn eu hannog naill ai i gerdded neu feicio, neu y bydd yn gwella hygyrchedd i'r rhai sy'n cerdded ac yn seiclo ar hyn o bryd.

Cafodd rhai pryderon eu mynegi o ran cerddwyr a chŵn yn croesi'r llwybr beicio i gyrraedd y parc a cholli gofod gwyrdd.

Roedd rhai gwrthwynebiadau i gau Heol y Gwernydd (Alder Road) a chodwyd rhai pryderon am gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian ac oedi yn y signalau traffig.

Rydym wedi adolygu'r adborth a ddaeth i law a byddwn yn ceisio mynd i'r afael â phryderon perthnasol fel rhan o'r broses ddylunio barhaus.

Os oes sylwadau pellach gennych, hoffem wybod eich barn o ran cam **Cae Rec y Rhath**. Ceir gwybodaeth ar **Sut i ymateb** a dolen i'r **adroddiad ymgynghori llawn** ar ddiwedd y ddogfen hon.




# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Diweddariad ar yr ymgynghoriad - trosolwg

Bydd y gwelliannau i Gae Rec y Rhath a Heol Ninian a'r llwybr ehangach yn rhoi cyfle i gysylltu â llwybrau beicio eraill yn y dyfodol, ond gan ddarparu manteision allweddol megis hyrwyddo **teithio cynaliadwy a llesol i ysgolion, cyflogaeth, cysylltiadau â thrafnidiaeth gyhoeddus.**

Trosolwg o'r cynllun wedi'i ddiweddaru fel a ddangosir isod. Mae gwelliannau ychwanegol i'w gweld ar Heol Tŷ Draw a Pen-Y-Wain Place.




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*


Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd


# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Diweddariad ymgynghori - Heol Tŷ Draw

O adborth a roddwyd ac ymchwiliad dilynol, cynigir disodli'r tair set bresennol o rwystrau culhau ar Heol Tŷ Draw gyda phedwar pwynt croesi dyrchafedig nas rheolir. Mae Heol Tŷ Draw yn Llwybr Beicio Eilaidd wedi'i gynllunio fel rhan o'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol drafft a bydd y mesurau hyn yn hwyluso'r heol hon ar gyfer Teithio Llesol.








*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Diweddariad ymgynghori - ardal Heol y Gwernydd




Bydd gwelliannau i gyffordd Heol y Gwernydd yn cynnwys symud ac uwchraddio'r groesfan sebra ddyrchafedig bresennol, ail-leoli / gwella safleoedd bysiau a chau pen gorllewinol Heol y Gwernydd i atal gwrthdaro posib rhwng beics a cherbydau.




*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Diweddariad ymgynghoriad - ardal Pen-Y-Wain Place

Bydd y groesfan sebra bresennol ger Pen y Wain Place yn cael ei huwchraddio yn groesfan ddyrchafedig â chroesfan gyfochrog i feics. Bydd hyn yn gwella mynediad i Ysgol Gynradd Parc y Rhath. Mae troedffordd a rennir yn cael ei datblygu rhwng Heol Ninian ac Ysgol Gynradd Parc y Rhath.







*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Diweddariad yr ymgynghoriad - Cyffordd Heol Ninian / Heol Pen-y-lan







Mae gwelliannau mynediad hefyd yn cael eu cynnig ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Pen-y-Lan i gysylltu'r gwelliannau i Gae Rec y Rhath â llwybr beicio dros dro Heol Wellfield.

*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

### Ardal barcio ceir y Ganolfan Gymunedol






Er mwyn gwneud lle i'r trac beicio, bydd mynediad i'r Ganolfan Gymunedol a chynllun y maes parcio yn cael eu newid.

Cynigir cylchrediad dwy ffordd gyda dim ond cerbydau dosbarthu yn cael gadael allan i Heol Ninian. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o wrthdaro cerbydau / beics.

*Mae'r lliwiau at ddibenion darluniadol yn unig*

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Sut i ymateb

**A wnewch chi ymateb i'r diweddariad i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r ffurflen arolwg hon: YMA**

Neu copïwch a gludwch yr URL canlynol: **https://online1.snapsurveys.com/db753y**

Bydd hyn yn eich galluogi i wneud sylwadau ffurfiol mewn ymateb i'r diweddariad i'r ymgynghoriad hwn.

Fel arall e-bostiwch **projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk**

neu ysgrifennwch at y Tîm Rhaglenni Trafnidiaeth, Ystafell 301 Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

**Bydd y diweddariad hwn i'r ymgynghoriad ar agor tan 06/01/2023**

Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i lywio datblygiad y cynllun. Gellir newid y cynllun enghreifftiol a ddangosir o ganlyniad i'r broses ddylunio fanwl, neu oherwydd adborth arall a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu neu ddylunio.

Ceir ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar y cynigion yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad sydd ar gael yn **www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth** gan ddewis y ddolen 'ymgynghoriadau blaenorol' a dewis teitl y cynllun. Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad, a'r Diweddariad i'r Ymgynghoriad hwn, caiff y prosiect wedyn ei gynllunio'n fanwl a'i roi ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ac arian.

**Sylwer mai dim ond adborth a chwestiynau sy'n ymwneud â'r prosiect hwn a gaiff eu hystyried neu y gweithredir arnynt. Os oes gennych unrhyw adborth ar wasanaethau eraill y Cyngor, ewch i www.cardiff.gov.uk**

**Ni allwn ymateb i ymatebion unigol chwaith – ond bydd yr holl ymatebion yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd ar gael yn fuan wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad. Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu.**

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cwestiynau Cyffredin

**Ar beth ydych chi'n ymgynghori'n union?** Rydym am wybod eich barn ynghylch y cynigion a ddiweddarwyd ar gyfer Cae Rec y Rhath ac ar hyd Heol Ninian, gan gynnwys y cynlluniau ychwanegol ar gyfer Heol Tŷ Draw a Pen-Y-Wain Place.

**Pa welliannau a wneir ar gyffordd Heol Wellfield / Heol Ninian?** Mae'r Cyngor yn cynllunio gwelliannau i'r gyffordd ar gyfer cerddwyr a beicwyr sydd yn integreiddio â'r llwybr beicio dros dro presennol ar Heol Wellfield gan gynnwys newidiadau i faes parcio'r Ganolfan Gymunedol. Gan y bydd camau'r signalau yn cael eu diweddaru ar gyfer croesfan feics, bydd rhai symudiadau troi yn cael eu gwahardd. Bydd hyn yn helpu'r gyffordd i weithio a lleihau tagfeydd. Bydd hwn yn rhan o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig gyfreithiol (GRhT).

**Beth am draffig a ddadleolir gan y gwaharddiadau symudiadau troi wrth y gyffordd?** Mae arolygon traffig wedi nodi lefel isel o symudiadau troi o Heol Wellfield i Heol Marlborough ac o Heol Marlborough i Heol Pen-y-lan yn ystod oriau brig. Trwy fodelu, rydym wedi ystyried nifer o gyfnewidiadau ac wrth gydbwyso, mae'r gwaharddiadau symudiadau troi a ddewiswyd yn cynorthwyo i ddarparu'r capasiti a'r perfformiad gorau ar gyfer y gyffordd. Mae'n debygol y byddai'r mân ddadleoli sy'n gysylltiedig â'r opsiwn arfaethedig (gyda'r gwaharddiadau symudiadau troi arfaethedig), yn drech nag unrhyw effaith negyddol y byddai unrhyw opsiwn arall yn ei greu. Byddai cyrchfannau'r traffig a ddadleolir hefyd yn amrywio, felly mae'n debygol y bydd unrhyw draffig a ddadleolir yn ystod oriau brig y bore a'r prynhawn yn ddibwys.

**Beth fydd yn digwydd i'r mannau parcio i gerbydau yn yr ardal neu fel rhan o'r cynlluniau llwybr ehangach?** Bydd y cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer y llwybr ehangach yn effeithio ar barcio ar y stryd. Mae'r Cyngor wedi bod yn cyflwyno newidiadau parcio i ardaloedd tebyg ar sail parthau. Mae'r cynlluniau parcio hyn yn rhoi mwy o fannau parcio i breswylwyr a pharcio aros cyfyngedig a reolir i ostwng nifer y cymudwyr sy'n parcio a gwella cyfleoedd parcio i fusnesau a thrigolion. Nid oes unrhyw gynlluniau cadarn yn rhan o'r ymgynghoriad penodol hwn, ond darperir cynlluniau yn y dyfodol i'w hystyried. Mae'n bosib y daw rhai parthau i fod fel rhan o'r beicffyrdd sy'n cael eu datblygu neu ar wahân iddynt er mwyn mynd i'r afael â materion lleol neu i gynnwys parcio Talu ac Aros. Bydd y rhain yn rhan o broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) gyfreithiol .

**A fydd rhaid i mi dalu i barcio?** Lle bydd parthau parcio yn cael eu cyflwyno, cyflwynir cyfuniad o drwyddedau parcio i breswylwyr yn unig, aros cyfyngedig a pharcio talu ac aros. Bydd cyfle i barcio am ddim, ond bydd hyn am gyfnod cyfyngedig. Mae mwy o wybodaeth am gynlluniau trwyddedau a thalu ac aros ar gael ar wefan y Cyngor.

# Llwybr Beicio Parc y Rhath

## Gwelliannau i Gae Rec y Rhath

## Cwestiynau Cyffredin (parhad)

**Pam ydych chi'n cynnig mwy o gyfleusterau beicio?** Mae'n bwysig gwella ansawdd yr aer yng Nghaerdydd cyn gynted â phosibl. I gefnogi hyn, mae'n bwysig annog teithio llesol a chynaliadwy ledled Caerdydd. Mae gwella beicffyrdd, safleoedd bws a llwybrau bws yn hanfodol i'r cynllun hwn. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ehangach y llwybr hwn yn y dyfodol.

**Pa gyfleusterau beicio sydd wedi'u cynllunio fel rhan o'r prosiect hwn?** Cynigir llwybr beicio dau gyfeiriad newydd ar wahân drwy'r cae chwarae a fydd yn gwella mynediad i'r parc ac yn cysylltu â llwybr beicio dros dro Heol Wellfield, yn ogystal â Heol Albany, yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar fel rhan o'r Llwybr Coch. Mae'r Llwybr Coch wedi'i ailenwi'n Llwybr Beicio Parc y Rhath. Bydd y llwybr yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol a gellid ychwanegu cysylltiadau eraill fel rhan o Fap Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLl) Caerdydd; byddai angen ymgysylltu ymhellach â Chynghorwyr Lleol, Busnesau a Phreswylwyr ar y rhain.

**Beth yw aliniad y llwybr ehangach?** Rydym yn dal i ddatblygu'r llwybr, ond mae'n debygol y bydd y cynigion yn dilyn llwybr trwy Heol Richmond, Heol Albany, Heol Wellfield, Heol Ninian a Heol Orllewinol y Llyn. Byddwn yn ymgynghori ar gynigion ehangach y llwybr hwn yn y dyfodol.

**A allwch gael gwared ar y rhwystrau culhau ffordd?** Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, bwriadwn uwchraddio'r rhwystrau culhau'r ffordd ar Heol Tŷ Draw i fod yn fannau croesi dyrchafedig (clustogau) sy'n cadw cyflymderau cerbydau yn isel, ond sy'n galluogi'r traffig i lifo'r ddwy ffordd. Cynigir bwrdd arafu ychwanegol hefyd ger Heol y Gwernydd. Mae Heol Tŷ Draw wedi'i nodi fel llwybr eilaidd fel rhan o'r MRhTLl, felly rydym yn ceisio gwneud yr amgylchedd yn fwy ffafriol i Deithio Llesol.

**Pam na ellir defnyddio'r arian i lenwi ceudyllau?** Mae'r Cyngor yn derbyn arian ar wahân i fynd i'r afael â materion cynnal a chadw.

**Beth am draffig yn teithio o amgylch yr ardal a'r rhwydwaith?** Gwneir newidiadau sylweddol i Ganol y Ddinas a'r Ddinas yn gyffredinol yn y dyfodol, yn enwedig hyrwyddo mesurau teithio llesol a chynaliadwy. Yn rhan o'n gwaith asesu, byddwn yn edrych ar ba fesurau rheoli traffig eraill y dylem eu cynnwys, megis mwy o gyfleusterau i gerddwyr a beicwyr, blaenoriaeth i fysiau a Choridorau Clyfar i reoli llif traffig. Mae mwy o wybodaeth am ein cynlluniau presennol ar wefan y Cyngor ac ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd. Ewch i: [www.caerdydd.gov.uk](http://www.caerdydd.gov.uk) neu Papur Gwyn Trafnidiaeth (caerdydd.gov.uk)